

YSGOL BRYNREFAIL

Polisi Disgwyliadau Dosbarth



DISGWYLIADAU DOSBARTH

Lleoedd gwaith yw dosbarthiadau (gan gynnwys labordai, campfeydd a gweithdai). Fel mewn unrhyw le gwaith arall, e.e. ffatri neu swyddfa, rhaid dilyn rheolau a chael disgwyliadau clir i alluogi pawb i weithio'n ddiogel, yn llwyddiannus a gyda mwynhad.

1. DECHRAU GWERSI

- byddwch yn brydlon
- rhaid ymddwyn yn gall wrth fynd i mewn i ystafelloedd. Ewch yn syth i'ch man gwaith
- tynnwch eich cotiau a'u cadw yn eich bagiau neu ar beg mewn man pwrpasol
- cadwch eich bagiau (nid ar y ddesg)
- byddwch yn ddistaw tra bydd yr athro/athrawes yn marcio'r gofrestr (heblaw pan elwir eich enw chi).

2. YN YSTOD Y GWERSI

- rhaid canolbwyntio a chadw'n ddistaw tra bydd yr athro/athrawes yn siarad gyda'r dosbarth cyfan
- os gofynnir cwestiwn i'r dosbarth, rhowch eich llaw i fyny i ateb; peidiwch a galw allan
- sicrhewch fod gennych ben, pensil, pren mesur ac unrhyw lyfrau neu ffeiliau angenrheidiol
- disgwylir i chwi weithio'n gall gyda'ch cyfoedion; peidiwch a thynnu sylw eraill neu eu cynddeiriogi mewn unrhyw ffordd
- cofnodwch eich gwaith cartref
- ni chaniateir bwyta, yfed na chnoi' os bydd athro neu athrawes yn eich dal yn gwneud un o'r rhain fe ofynnir i chi wagio'ch ceg a rhoi'r bwyd neu'r diod yn y bin
- ni chaniateir edrych ar fagasins, gwrando ar y radio neu ar 'I Pod' yn ystod gwersi. Gall athro/athrawes dynnu'r rhain oddi wrthyh
- Peidiwch a gadael y wers heb ganiatâd athro/athrawes.

3. DIWEDD Y WERS

- fe gennir y gloch fel arwydd i'r athrawon, ni i chi
- peidiwch a dechrau pacio eich bag a rhoi eich cotiau nes i chi dderbyn cyfarwyddyd gan yr athro/athrawes
- fe fydd yr athro/athrawes yn eich cyfarwyddo i sefyll a chadw'ch cadeiriau o dan y ddesg. Dylid codi unrhyw sbwriel a'i rhoi yn y bin
- fe gewch adael yr ystafell yn dilyn gorchymyn gan yr athro/athrawes.

Lluniwyd y polisi hwn mewn cytundeb ac ymgynghoriad llawn gyda'r staff dysgu a'u hundebau gan warchod cydbwysedd bywyd a gwaith athrawon. Roedd hyn yn cynnwys asesiad yn erbyn Rhestr Wirio Effaith Llwyth gwaith.

Llofnodwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr ar ran y Corff Llywodraethu:

Dafydd M Roberts (Cadeirydd y Llywodraethwyr)

Dyddiad cymeradwyo: 14/07/2014 (gan y Corff Llywodraethu llawn)

Dyddiad adolygu: Gwanwyn 2017